# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwynfa II The Lodge**

**Bontnewydd**
**Caernarfon**
**LL54 7YH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gwynfa II The Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Gwynfa |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Ebrill 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae cynlluniau personol ar gael i arwain y staff gofal. Fodd bynnag mae angen mwy o fanylder ar sut mae'r bobl am gael eu cefnogi. Cynigir dewisiadau dyddiol i'r bobl a gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n rhoi rhywbeth i'r bobl edrych ymlaen atynt. Mae'r cydberthnasau'n gynnes ac yn ofalgar. Mae dewis da o fwyd cartref maethlon a darperir ar gyfer y bobl sydd ag anghenion deietegol arbennig. Mae angen rhoi sylw i'r trefniadau rheoli digwyddiadau er mwyn sicrhau y caiff y risgiau posibl i iechyd a llesiant y bobl eu goruchwylio'n well. Caiff y bobl eu cyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol ond nid mewn perthynas â rheoli cwympiadau.

Mae angen gwella goruchwyliaeth a llywodraethiant y gwasanaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl ac y caiff gofynion y rheoliadau eu bodloni. Gwnaethom nodi meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r gofynion cyfreithiol gan gynnwys, cymorth a datblygiad y staff, arferion recriwtio, risgiau iechyd a diogelwch ac arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol y gwasanaeth. Mae angen gwella'r hyfforddiant i staff mewn perthynas â chwympiadau.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis dros agweddau ar eu bywyd dyddiol fel lle i dreulio eu hamser, gweithgareddau byrbrydau a lluniaeth. Mae'r staff yn garedig, yn barchus a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y cymorth a ddarperir a dull gofalgar y staff. Roedd y staff yn parchu dewis iaith y bobl a chlywsom y staff yn siarad Cymraeg â'r preswylwyr drwy gydol y dydd. Mae'r fwydlen yn cynnig prydau bwyd iach, maethlon sydd wedi cael eu paratoi'n ffres; caiff pryd arall ei baratoi ar gyfer y rheini nad oeddent am gael yr hyn a oedd yn cael ei gynnig ar y fwydlen. Roedd y cogydd yn deall dewisiadau bwyd y bobl a'u gofynion deietegol.

Nid yw'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol bob amser. Mae'r staff yn sylwgar, yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at y bobl a gwelsom sawl enghraifft o hyn drwy gydol y dydd. Er na welsom unrhyw weithgareddau'n digwydd, mae'r staff yn cymdeithasu â'r preswylwyr ac mae nifer o eitemau celf a chrefft, posau a gemau ar gael i'r bobl gymryd rhan ynddynt.  Mae diddanwyr allanol yn ymweld â'r gwasanaeth ac mae therapydd anifeiliaid anwes yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth ddigonol. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau y caiff asesiadau risg cwympiadau eu hadolygu ac y cymerir camau i liniaru unrhyw gwympiadau a damweiniau pellach er mwyn amddiffyn y bobl rhag niwed.

Ni all y bobl fod yn hyderus eu bod yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni llesiant da. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth ac mae'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi wedi'u haddurno'n hyfryd. Mae'r safonau glendid a hylendid yn dda ar y cyfan, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau. Nid yw'r prosesau llywodraethu'n effeithiol am nad yw'r darparwr yn nodi risgiau neu feysydd i'w gwella mewn modd amserol bob amser. Mae amrywiol faterion yn ymwneud â'r amgylchedd a nodwyd yn ystod yr arolygiad sydd heb gael eu nodi neu lle nad yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi mynd i'r afael â nhw. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn cynnwys gofyn barn y bobl sy'n byw yno, eu teuluoedd neu eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, ac ystyried y farn honno.

Nid yw'r bobl bob amser yn ddiogel rhag y risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae'r nifer sy'n cwblhau hyfforddiant yn gyffredinol yn wael yn enwedig o ran diogelu, Deddf Galluedd Meddyliol, atal a rheoli heintiau a diogelwch tân. Mae angen cryfhau'r arferon recriwtio staff a tdigwyddiadau. Nid yw'r polisi diogelu wedi cael ei ddiweddaru ers yr arolygiad diwethaf.  Mae systemau rheoli meddyginiaeth ar waith; ond mae angen atgyfnerthu rhai meysydd. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei storio'n ddiogel. Mae'r bobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd yn ddarostyngedig i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS).

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth gofalgar a thosturiol gan staff gofal. Mae niferoedd y staff wedi cael eu gostwng yn ystod y prynhawniau'n ddiweddar, ond ni welsom unrhyw effaith negyddol ar y gofal a ddarperir ar adeg yr arolygiad. Gwelsom fod y bobl yn edrych yn dda a gwelsom y bobl yn hapus ac yn treulio amser gydag eraill. Gwelsom fod iaith y corff ac ystumiau'r bobl yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel ymysg y staff gofal sy'n eu cefnogi. Nid oes unrhyw gydlynydd gweithgareddau yn cael ei gyflogi yn y cartref, mae'r staff yn hwyluso gweithgareddau ar sail ad hoc bob shifft. Mae'r staff gofal yn gwerthfawrogi'r bobl, a gwelsom ofal a chynhesrwydd gwirioneddol yn cael ei roi ganddynt.

Mae cyngor a chymorth priodol ar gael i'r bobl i hybu eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Gall y bobl weld meddygon teulu, deintyddion a phodiatregwyr yn rheolaidd pan fo angen. Mae cofnodion yn dangos y caiff apwyntiadau iechyd eu cofnodi a chaiff y bobl eu cefnogi gan y tîm nyrsio ardal. Rhoddir cymorth i'r bobl gadw mewn cysylltiad rheolaidd â theulu a ffrindiau. Mae croeso i ymwelwyr ddod i'r cartref, sy'n cefnogi llesiant emosiynol y bobl.

Ni all y bobl deimlo'n hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol am y ffordd y dylid diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae asesiadau cyn derbyn yn cael eu cynnal cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref a chaiff dogfennau eu cwblhau er mwyn rhoi gwybod i'r staff am hanes y bobl a pham eu bod wedi dod i'r cartref. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am sut yr hoffai'r bobl gael eu cefnogi ond mae angen rhagor o fanylder. Ar y cyfan mae asesiadau risg ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen gwella'r asesiadau risg mewn perthynas â rheoli cwympiadau am nad ydynt yn cael eu diweddaru ar ôl i berson gwympo.

Mae trefniadau ar waith yn bennaf ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Ni wnaethom gwblhau archwiliad meddyginiaeth llawn am fod y gwasanaeth wedi cael ffurflen archwilio fanwl a chadarnhaol gan fferyllydd allanol yn ddiweddar heb fawr ddim camau gweithredu i'w cwblhau.  Gwelsom arferion da wrth i'r staff roi meddyginiaeth ac maent yn gwisgo tabard ‘do not disturb’. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r staff mewn perthynas â'r arferion gorau wrth reoli meddyginiaethau. Mae gwelliannau'n dal i fod ar waith o ran prosesau i fonitro effeithiau meddyginiaeth sy'n cael ei rhagnodi 'yn ôl yr angen' a'r staff yn llofnodi'r Siartiau Rhoi Meddyginiaeth i nodi eu bod wedi rhoi'r feddyginiaeth. Mae hwn yn faes i'w wella o hyd, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn fawr ac wedi'u personoli i adlewyrchu eu chwaeth a'u diddordebau, gydag eitemau megis ornamentau, lluniau a dodrefn newydd. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus â'u hystafelloedd gwely. Caiff y cartref ei rannu'n ddwy ardal ac mae'r bobl sydd ag anghenion gofal sy'n gysylltiedig â dementia mewn rhan estynedig o'r cartref gyda'r bobl nad oes ganddynt anghenion gofal sy'n gysylltiedig â dementia yn byw yn yr adeilad gwreiddiol. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu hadnewyddu ac maent yn olau ac yn hylan, ond mae angen rhoi sylw i sicrhau bod rhwd yn cael ei dynnu oddi ar declynnau codi o'r bath. Mae angen ailaddurno rhannau o'r cartref gan gynnwys y coridorau ac mae angen newid y carpedi ar y grisiau i gyd. Nododd yr Unigolyn Cyfrifol bod y meysydd hyn wedi cael eu nodi ac y byddant yn cael eu newid yn fuan.  Mae ardal patio gaeedig yn yr awyr agored i'r bobl eistedd ynddi gydag ardaloedd eistedd, ond gellid gwella'r ardal hon.

Cynhelir profion rheolaidd yn y gwasanaeth. Cynhelir ymarferion tân a gwiriadau larymau tân mor aml ag sy'n ofynnol. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng er mwyn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i helpu'r bobl i adael yn ddiogel pe bai argyfwng. Gwelsom oruchwyliaeth briodol o ran bod gwiriadau diogelwch nwy a thrydan ar waith ac mae profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal. Mae'n ofynnol i ymwelwyr ganu'r gloch a'u chyflwyno eu hunain i'r staff cyn gweld eu ffrindiau neu eu perthynas a gofynnwyd iddynt lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Mae'r gegin wedi ennill sgôr hylendid bwyd o bump, sy'n golygu bod y safonau hylendid bwyd yn dda iawn.

Ni all y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Nid yw bob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau a diogelwch tân. Nid yw'r camau gweithredu yn dilyn asesiad risg tân diweddar wedi cael eu cwblhau na'u cydnabod gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae cyflenwad gormodol o gyfarpar diogelu personol a nifer o eitemau eraill sy'n beryglus, ac mae cyfarpar y swyddog cynnal a chadw yn cael ei storio ar lawr uchaf y cartref.  Mae'r staff wedi anwybyddu'r arwyddion rhybudd lle maent yn cael eu hegwyl ysmygu. O ganlyniad i'n pryderon, rydym wedi cyfeirio'r materion i'r Awdurdod Tân eu hystyried. Mae darparwr y gwasanaeth wedi nodi pryderon diogelwch â'r feranda ar flaen yr eiddo ond wedi methu â chymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel tan iddo gael ei drwsio. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i oruchwylio'n effeithiol ac mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ac y caiff gofynion y rheoliadau eu bodloni. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth ac wedi ymgymryd ag adolygiadau o ansawdd y gofal. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod diffyg gwybodaeth i nodi lle mae ansawdd a diogelwch y gwasanaeth yn cael ei gyfaddawdu. Ni ofynnir am farn y bobl, y staff gofal nac eraill fel mater o drefn. Nid yw archwiliadau'r amgylchedd yn gadarn ac mae'r rheolaeth o gwympiadau yn wael. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith. Nid oes cyfarfodydd staff gofal neu breswylwyr rheolaidd lle gall y bobl roi eu barn ar y gwasanaeth. Ni chaiff y staff gofal gyfarfodydd goruchwylio un i un rheolaidd â'u rheolwr llinell, ac mae angen gwella'r gwiriadau recriwtio staff a hyfforddiant yn sylweddol. Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i'r staff yn llawn na'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ni all y bobl fod yn hyderus bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol ac yn cael y cymorth a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol iddynt i gyflawni eu rolau gofal yn unol â datganiad o ddiben y cartref yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i bobl â dementia. Roedd y matrics hyfforddiant staff yn tynnu sylw at ddiffygion sylweddol a oedd yn cynnwys hyfforddiant mewn meysydd allweddol megis gofal dementia, codi a chario, diogelu, iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau, ymwybyddiaeth o dân a hylendid bwyd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw arferion recriwtio a sefydlu'r staff newydd yn diogelu'r bobl yn llwyr er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Nid yw'r staff newydd wedi cwblhau cyfnod sefydlu nac un sy'n unol â fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag anghenion y bobl, iechyd a diogelwch a'r amgylchedd. Mae’r cofnodion yn dangos bod pob aelod o staff gofal newydd sy’n gweithio yn y cartref, nad ydynt ar system y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, wedi cael gwiriad cyfredol cyn dechrau yn eu rôl. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid oes gan y darparwr archwiliad amgylchedd cadarn a chynllun cynnal a chadw ar waith ac nid yw wedi nodi meysydd sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch. Rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch unigolion yn cael eu nodi a’u lleihau i’r graddau y bo’n rhesymol ymarferol. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff wedi cael eu goruchwylio o fewn amserlenni rheoleiddiol. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod yr aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'w gwaith y maent yn ei gyflawni. Rhaid i'r staff gael eu goruchwylio o leiaf bob tri mis. Rhaid i ddarparwr y | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaeth sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn diwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. | |
| 6 | Mae sawl maes sydd angen eu gwella er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu'n ddiogel ac yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae angen i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod gofynion rheoliadol er mwyn cefnogi staff a goruchwylio'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben mewn modd diogel. | Heb ei gyflawni |
| 35 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod systemau dethol a fetio trylwyr ar waith ar gyfer recriwtio. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau fod holl yr wybodaeth recriwtio berthnasol ar waith cyn i'r bobl ddechrau gweithio. Mae angen gwella'r ffordd y caiff y bobl eu recriwtio gan gynnwys bod gan y staff wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau gweithio yn y cartref a rhoi proses archwilio ar waith. | Heb ei gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr arferion Meddyginiaeth yn cael eu gwella. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod cyffuriau a reolir yn cael eu harchebu a bod y meddyginiaethau'n cael eu cofnodi er mwyn dangos eu bod wedi cael eu rhoi a bod effeithiau'r | Heb ei gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | meddyginiaethau 'yn ôl yr angen' yn cael eu cofnodi. | |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/07/2024